Canllaw i ganlyniadau Bagloriaeth Cymru

Ionawr a Mehefin 2019

Fersiwn Terfynol 1

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau ar gyfer **cymwysterau Bagloriaeth Cymru**. Mae'n manylu ar beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn, gwybodaeth am ffiniau graddau, a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol

1. Diwrnod y Canlyniadau

i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau arholiadau o safle eu hysgol neu goleg, fel arfer ar ddiwrnod cyhoeddi canlyniadau swyddogol y cymwysterau y maent wedi eu sefyll.

Ar gyfer Ionawr 2019, cyhoeddir canlyniadau cydrannau CA4 ac Uwch ar 7 Mawrth 2019.

Ar gyfer Mehefin 2019, y dyddiadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau yw:

Uwch	Dydd Iau 15 Awst
CA4 ac Ôl-16	Dydd Iau 22 Awst

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, wirio â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno. Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft, yn dilyn Ymholiadau am Ganlyniadau (YAG), sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Adolygiad o Farcio neu Safoni. Darllenwch fwy am ymholiadau am ganlyniadau isod ac ar ein tudalen Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau.

iii) Sut mae'r slip yn dangos y canlyniadau?

Bydd y slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob Her a gymerwyd yn y gyfres arholiadau honno h.y. bydd slipiau canlyniadau ar wahân yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr haf a mis Ionawr.

- Ar gyfer pob Her a'r Project Unigol, bydd y canlyniadau yn dangos marc GMU a gradd.
- Ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau, bydd y canlyniadau yn dangos cyfanswm y GMU ar gyfer pob Her a'r Project Unigol a gradd gyffredinol am y Dystysgrif Her Sgiliau. (Cyhoeddir yng nghyfres yr haf yn unig).
- Ar gyfer y cymhwyster Bagloriaeth Cymru Cyffredinol, bydd canlyniadau naill ai yn dangos P (Llwyddiant) neu F (Methu) (Cyhoeddir yng nghyfres yr haf yn unig).

2. Deall eich canlyniadau

i) Esbonio graddau

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar **Dystysgrif Her Sgiliau** ynghyd â **Chymwysterau Ategol eraill**. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Rhaid i'r ymgeiswyr gyflawni'r canlynol er mwyn ennill y cymhwyster llawn:

Lefel	**Tystysgrif Her Sgiliau**	**Cymwysterau Ategol** *(Rhaid cyflawni A a B)*	
		A *(Cyflawnwyd yn Ystod neu Cyn Ymrestru)*	**B** *(Cyflawnwyd yn ystod Ymrestru)*
CA4 Sylfaenol	Llwyddiant neu Lwyddiant*	TGAU Saesneg Iaith *neu* TGAU Cymraeg Iaith – gradd A* - G **A** TGAU Mathemateg – Rhifedd *neu* TGAU Mathemateg – gradd A* - G	O leiaf dri chymhwyster TGAU arall gradd A*-G, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth
CA4 Cenedlaethol	A*- C	TGAU Saesneg Iaith *neu* TGAU Cymraeg Iaith – gradd A* - C **A** TGAU Mathemateg – Rhifedd *neu* TGAU Mathemateg – gradd A* - C	O leiaf dri chymhwyster TGAU arall gradd A*-C, y gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth
Ôl 16 Sylfaenol	Llwyddiant neu Lwyddiant*	TGAU Saesneg Iaith *neu* TGAU Cymraeg Iaith – gradd A* - G *neu* Sgil Cyfathrebu Hanfodol ar L1 neu uwch **A** TGAU Mathemateg – Rhifedd *neu* TGAU Mathemateg gradd A* - G neu Sgil Cymhwyso Rhif Hanfodol ar L1 neu uwch	Uchafswm o bedwar cymhwyster Lefel 1 gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf
Ôl 16 Cenedlaethol	A*- C	TGAU Saesneg Iaith *neu* TGAU Cymraeg Iaith – gradd A* - C *neu* Sgil Cyfathrebu Hanfodol ar L2 neu uwch **A** TGAU Mathemateg – Rhifedd *neu* TGAU Mathemateg – gradd A* - C *neu* Sgil Cymhwyso Rhif Hanfodol ar L2 neu uwch	Uchafswm o bedwar cymhwyster Lefel 2 gyda chyfanswm o 300 ODA o leiaf.
Uwch	A*- E	TGAU Saesneg Iaith *neu* TGAU Cymraeg Iaith – gradd A* - C **A** TGAU Mathemateg – Rhifedd *neu* TGAU Mathemateg – gradd A* - C	Dau gymhwyster Safon Uwch ar raddau A*- E; **neu** Un Safon Uwch ar raddau A* - E a Llwyddiant ar un cymhwyster galwedigaethol lefel 3 o o leiaf 300 ODA; **Neu** Llwyddiant ar un neu ddau gymhwyster galwedigaethol lefel 3 gyda chyfanswm o o leiaf 600 ODA.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob ymgeisydd.

Cydran	Pwysoliad	Cyfanswm GMU
Project Unigol	50%	150
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	60
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	45
Her y Gymuned	15%	45

Mae'r graddau crynodol canlynol yn cael eu dyfarnu i heriau Bagloriaeth Cymru:

CA4 Cenedlaethol/ Sylfaen	L1 Llwyddiant	L2 Llwyddiant	L2 Teilyngdod	L2 Rhagoriaeth
Cenedlaethol Ôl 16	L1 Llwyddiant	L2 Llwyddiant	L2 Teilyngdod	L2 Rhagoriaeth
Sylfaen Ôl 16	L1 Llwyddiant	L1 Teilyngdod		
Uwch	L3 Llwyddiant	L3 Teilyngdod	L3 Rhagoriaeth	

Mae cymhwyster cyffredinol Bagloriaeth Cymru yn cael ei ddyfarnu fel a ganlyn:

	Tystysgrif Her Sgiliau	Bagloriaeth Cymru Cyffredinol
CA4 a Sylfaen Ôl 16	Llwyddiant neu Lwyddiant*	Llwyddiant (P) neu Fethu (F)
CA4 a Chenedlaethol Ôl 16	A* - C	Llwyddiant (P) neu Fethu (F)
Uwch	A*- E	Llwyddiant (P) neu Fethu (F)

ii Esbonio marciau

- **Marciau crai**

  Mae cyfanswm marciau crai yn cael ei ddyrannu i bob her.

- **Graddfa Marciau Unffurf (GMU).**

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau cydran ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd y gydran. Bydd canlyniadau cydrannau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa.

Mae uchafswm marciau unffurf unrhyw gydran yn dibynnu ar bwysoliad y gydran honno yn y fanyleb. Pwysoliad y pedair cydran yw 50%, 20%, 15% a 15% a dyrennir GMU allan o 150, 60, 45 a 45. I bob tystysgrif, dangosir y berthynas rhwng marciau unffurf a graddau yn y tablau canlynol ar gyfer pob un o'r cymwysterau a chydrannau.

Pan fydd ymgeisydd wedi cwblhau pob un o'r pedair cydran, bydd ei farciau unffurf yn cael eu hadio at ei gilydd i roi cyfanswm allan o 300 ac yna bydd y radd yn cael ei phenderfynu.

DS: Rhaid i ymgeisydd lwyddo ym mhob un o'r pedair cydran i ennill gradd am y Dystysgrif Her Sgiliau

Ffiniau Graddau GMU Cyffredinol Tystysgrif Her Sgiliau – CA4 Cenedlaethol/Uwch

Gellir dyfarnu gradd Sylfaen neu Genedlaethol i'r cymhwyster.

Rhoddir graddau A* - C am y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol a **rhaid** i ymgeiswyr lwyddo yn y Project Unigol a'r tair her gydag o leiaf 80% ar L2 ac 20% ar L1. Lle mae'r ymgeiswyr wedi bodloni'r gofyniad hwn ond heb gyflawni 120 GMU, bydd gradd C yn cael ei dyfarnu iddynt.

Rhoddir graddau Llwyddiant neu Lwyddiant* am y Dystysgrif Her Sgiliau a rhaid i ymgeiswyr lwyddo yn y Project Unigol a'r tair her gydag o leiaf L1 Llwyddiant.

Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

	Cenedlaethol				Sylfaenol		
Ffiniau Graddau	**A***	**A**	**B**	**C**	**Llwyddiant***	**Llwyddiant**	**U**
Cyfanswm GMU	**270**	**240**	**180**	**120**	**90**	**60**	**0**
%	**90%**	**80%**	**60%**	**40%**	**30%**	**20%**	**0%**

Ffiniau Gradd GMU fesul Cydran

Cydran	Uchafswm Marciau Crai	Uchafswm Marciau GMU	L2 Rhagoriaeth	L2 Teilyngdod	L2 Llwyddiant	L1 Llwyddiant
Project Unigol	**96**	**150**	**120**	**90**	**60**	**30**
Menter a Chyflogadwyedd	**36**	**60**	**48**	**36**	**24**	**12**
Dinasyddiaeth Fyd-eang	**36**	**45**	**36**	**27**	**18**	**9**
Y Gymuned	**36**	**45**	**36**	**27**	**18**	**9**
%			**80%**	**60%**	**40%**	**20%**

Ffiniau Graddau GMU Cyffredinol Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl 16)

Rhoddir graddau Llwyddiant neu Llwyddiant* am y Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl 16) ac mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflawni L1 Llwyddiant o leiaf yn y Project Unigol a'r tair her.

Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau Graddau	Llwyddiant*	Llwyddiant
Cyfanswm GMU	210	120
%	70%	40%

Ffiniau Graddau GMU fesul Cydran;

Cydran	Uchafswm Marciau Crai	Uchafswm Marciau GMU	L1 Teilyngdod	L1 Llwyddiant
Project Unigol	72	150	105	60
Menter a Chyflogadwyedd	36	60	42	24
Dinasyddiaeth Fyd-eang	36	45	32	18
Y Gymuned	27	45	32	18
%			70%	40%

Ffiniau Graddau GMU Cyffredinol
Tystysgrif Her Sgiliau – Cenedlaethol (ÔI 16)

Rhoddir graddau A* - C am y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (ÔI 16) a **rhaid** i ymgeiswyr lwyddo yn y Project Unigol a'r tair her gydag o leiaf 80% ar L2 a 20% ar L1. Lle mae'r ymgeiswyr wedi bodloni'r gofyniad hwn ond heb gyflawni 120 GMU, bydd gradd C yn cael ei dyfarnu iddynt.

Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau Graddau	A*	A	B	C	U
Cyfanswm GMU	270	240	180	120	0
%	90%	80%	60%	40%	0%

Ffiniau Graddau GMU fesul Cydran;

Cydran	Uchafswm Marciau Crai	Uchafswm Marciau GMU	L2 Rhagoriaeth	L2 Teilyngdod	L2 Llwyddiant	L1 Llwyddiant
Project Unigol	72	150	120	90	60	30
Menter a Chyflogadwyedd	36	60	48	36	24	12
Dinasyddiaeth Fyd-eang	36	45	36	27	18	9
Y Gymuned	27	45	36	27	18	9
%			80%	60%	40%	20%

Ffiniau Graddau GMU Cyffredinol
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch

Rhoddir graddau A* - E am y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch ac mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflawni o leiaf L3 Llwyddiant yn y Project Unigol a'r tair her.

Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Ffiniau Graddau	A*	A	B	C	D	E	U
Cyfanswm GMU	270	240	210	180	150	120	0
%	90%	80%	70%	60%	50%	40%	0%

Ffiniau Graddau GMU fesul Cydran;

Cydran	Uchafswm Marciau Crai	Uchafswm Marciau GMU	L3 Rhagoriaeth	L3 Teilyngdod	L3 Llwyddiant
Project Unigol	72	150	120	90	60
Menter a Chyflogadwyedd	45	60	48	36	24
Dinasyddiaeth Fyd-eang	36	45	36	27	18
Y Gymuned	27	45	36	27	18
%			80%	60%	40%

iii) Sut mae marciau'n cael eu trosi'n raddau

- Mae pob Her a'r Project Unigol yn cael nifer penodol o farciau crai. Fodd bynnag, mae gan bob Her a'r Project Unigol bwysoliad gwahanol. Mae ffactor pwysoli (y cyfeirir ato hefyd fel ffactor agregu) yn cael ei gymhwyso wrth gyfrifo cyfanswm y marciau. Mae pwysoli yn esbonio pam nad yw'r marciau crai ar gyfer pob Her a'r Project Unigol bob amser yn adio i gyfanswm y marciau ar gyfer y cymhwyster. Gellir cyfrifo'r marc pwysol ar gyfer pob Her a'r Project Unigol drwy luosi'r marc crai ar gyfer cydran â'i ffactor pwysoli.

3. Ffiniau Graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau sydd eu hangen i ennill pob gradd ac maent yn amrywio pob blwyddyn. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff Her neu Broject Unigol ei sefyll.

Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw ystod canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel Her Sgiliau a Her unigol.

Ar ddiwrnod y canlyniadau, byddwch yn gallu cael mynediad at ffiniau graddau'r pob Her a'r Project Unigol drwy agor y cyswllt isod.

Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os ystyrir efallai bod gwall wedi digwydd, gellir gwneud cais am

- Adolygiad o'r safoni ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol

Am fanylion pellach, ewch i'n tudalen Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau a chyfeiriwch at y wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC am weithdrefnau **Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau**.

4. Pryd bydd tystysgrifau ar gael?

Bydd tystysgrifau haf 2019 yn cael eu hanfon i ysgolion erbyn 7 Tachwedd.

Ni chyhoeddir unrhyw dystysgrifau yng nghyfres Ionawr.

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Os na fydd gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr wirio'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau gyda'u hysgol neu goleg.

Atodiad 1

Slip canlyniadau enghreifftiol:



WELSH BACCALAUREATE (AUGUST) 2016

CENTRE NO.	CENTRE NAME	
CANDIDATE NO.	CANDIDATE NAME	DATE OF BIRTH
CANDIDATE UCI	CANDIDATE ULN	

			UMS	Grade
FOUNDATION (POST 16) WELSH BACC	FOUND POST 16 CASH IN	9001Q0		F
INDIVIDUAL PROJECT	WB F P16 PROJECT	90S1U1	082	P 1
ENTERPRISE AND EMPLOYABILITY	WB F P16 CHALLENGE 1	90S1U2	042	M 1
GLOBAL CITIZENSHIP CHALLENGE	WB F P16 CHALLENGE 2	90S1U3	032	M 1
COMMUNITY CHALLENGE	WB F P16 CHALLENGE 3	90S1U4	024	P 1
FOUND POST16 SKILLS CHALLENGE CERT	FOUND POST 16 SK CHAL	90S1Q0	180	P